

Gwyrthiau'r Meistr

“Ewch a dywedwch wrth Ioan yr hyn yr ydych wedi ei weld ac wedi ei glywed. Y mae'r deillion yn cael eu golwg yn ôl, y cloffion yn cerdded...” (adn. 22)

Beth am ddarllen Luc 7:18–35 ac yna myfyrio

Ar hyn o bryd, yr ydym yn ystyried beth yw'r pethau hynny sy'n rhaid i ni eu credu am Iesu i fod yn ffyddlon i'r ffydd Gristnogol. Rydym eisoes wedi edrych ar ei ddwyfoldeb, Ei ymgawdoliad, ei fywyd dibechod. Y mater nesaf yw ei wyrthiau.

Mae gwyrthiau ein Harglwydd fel ag y dywed yr ysgrythur heddiw yn arwyddion o deyrnas Dduw a'i ddwyfoldeb Ef. Maent yn arwyddo fod teyrnasiad y Meseia wedi cychwyn a dyma'r dystiolaeth y bu i Iesu ei chyflwyno i gysuro Ioan Fedyddiwr ag yntau yn y carchar. Ysgrifennodd C. S. Lewis lyfr hyfryd ar wyrthiau ac ynddo mae'n dweud, “Rwy'n darganfod ymhlith diwinyddion modern y syniad nad yw'r gwyrthiau erioed wedi eu cyflawni.” Mae gwadu gwyrthiau Iesu fel gwadu ei ddwyfoldeb, ac mae gwadu ei ddwyfoldeb fel y dywedais ynghynt yn ein cau allan o'r ffydd Gristnogol.

Y peth nesaf sydd angen ei dderbyn ac angen ei gredu gan unrhyw un sydd yn dymuno cyhoeddi eu bod yn Gristnogion yw marwolaeth iawnol Iesu Grist ac nad oedd unrhyw bechod yn perthyn i Iesu Grist yn ei natur nac yn ei weithredoedd. Fe allai fod wedi dianc rhag marwolaeth a'i symud i'r nefoedd. Fel y dywed un pregethwr yn hanes y Gweddnewidiad, bu bron â digwydd. Ond mae'n cymryd cam yn ôl i'r byd yma gan symud o fynydd y Gweddnewidiad i fynydd Calfaria er mwyn marw dros ein pechodau. Ein marwolaeth ni oedd ei farwolaeth Ef – y gosb ag y mae ein pechodau ni yn ei haeddu. Fe allai fod wedi ein gadael ni i'n cosb gan ein gadael i dderbyn cyflog ein pechod, ond mae ei gariad tuag atom gymaint fel ei fod yn rhoi ei fywyd drosom ar y groes. Rwyf wrth fy modd yn ailadrodd yr hanes. Nid oes hanes tebyg yn y byd i gyd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 8:23–27; Luc 11:14–20

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd y rheswm dros ryfeddod y disgyblion?
2. Beth mae gwyrthiau Iesu yn arddangos?

Gweddi

O Waredwr bendigedig, sut y medraf ddiolch i ti ddigon am y wyrth yr wyt wedi ei chyflawni yn fy mywyd wrth i ti fy achub. Nid oedd neb arall allai fy newid. Nawr mae fy nghalon yn eiddo i ti am byth. Amen.